# COFNODION CYFARFOD O FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU / GROWING MID WALES BOARD A GYNHALIWYD AR ZOOM DDYDD MAWRTH, 28 MAWRTH 2023

**PRESENNOL**

**Aelodau Cyngor Sir Ceredigion:**
Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd ac Aelod Cabinet ar faterion Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth **(BD)**
Y Cynghorydd Catrin M S. Davies, Aelod Cabinet ar faterion Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid **(CMSD)**
Y Cynghorydd Keith Henson, Aelod Cabinet ar faterion Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon **(KH)**
Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar faterion Partneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd **(MV)**

**Aelodau Cyngor Sir Powys:**
Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd (**JGW) (Cadeirydd)**
Y Cynghorydd Aled Davies **(AD)**
Y Cynghorydd Matthew Dorrance, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet ar gyfer Powys Decach **(MD)**
Y Cynghorydd David Selby, Aelod Cabinet ar faterion Powys Mwy Llewyrchus **(DS)**

**Swyddogion:**
Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Sir Ceredigion **(BR)**
Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu, Cyngor Sir Ceredigion **(EP)**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Ceredigion **(LE)**
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion **(DH)**
Carwyn Jones-Evans, Cyd-arweinydd Strategol, Tyfu Canolbarth Cymru/Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**
Clive Pinney, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Cyngor Sir Powys **(CP)**
Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau, Tyfu Canolbarth Cymru **(CM)**
Aggie Caesar-Homden, Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Canolbarth Cymru, Tyfu Canolbarth Cymru **(ACH)**
Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Gweithredol yr Economi a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Powys **(NB)**
Nicola Williams, Arweinydd Strategol ar y Cyd, Tyfu Canolbarth Cymru / Cyngor Sir Powys **(NW)**
Ffion Lloyd, Cyfreithiwr, Cyngor Sir Ceredigion **(FL)**

**Arsylwyr y Llywodraeth:**
Gareth Ashman, Pennaeth Twf Ranbarthol a Lleol, Llywodraeth y DU Cymru
Ann Watkin, Pennaeth Strategaeth, Cydweddu a Chynllunio Gweithrediadau, Llywodraeth Cymru
Peter James, Uwch Reolwr Strategaeth a Gweithrediadau, Llywodraeth Cymru

| 1. | **CROESO AC YMDDIHEURIADAU / WELCOME AND APOLOGIES** |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet CSC ar faterion yr Economi ac Adfywio, y Cynghorydd Amanda Jenner CSP, Eifion Evans Prif Weithredwr CSC, Caroline Turner, Prif Weithredwr CSP, Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol: Twf a Menter CSC, Russell Hughes-Pickering Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyngor Ymchwil ac Adfywio CSC.

| 2. | **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATIONS OF PERSONAL INTEREST** |
|---|---|

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb personol eu hadrodd.

| 3. | **COFNODION DRAFFT Y CYFARFOD DIWETHAF 17.02.2023** |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2023 yn gofnod cywir.

| 4. | **PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU / MW REGIONAL PARTNERSHIP** |
|---|---|

Adroddodd Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar Gyfarfod Ymgysylltu â Chyflogwyr y Gwanwyn a gynhaliwyd ar 23 Mawrth yng Ngwesty'r Metropole yn Llandrindod. Yn y digwyddiad, a hwyluswyd gan Alun Jones, cyn Brif Weithredwr Menter a Busnes, lansiwyd yn ffurfiol y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd a’r Cynllun Gweithredu. Mynychodd 56, gan gynnwys 20 o fusnesau a rhanddeiliaid. Hwn oedd y digwyddiad cyntaf o'i fath ar gyfer y Bartneriaeth ac roedd yn galonogol gweld 20 o gyflogwyr yn mynychu. Roedd tîm y Bartneriaeth wrthi'n sefydlu'r Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr a byddai'n parhau i ddefnyddio rhwydweithiau a fforymau busnes i annog ymgysylltu pellach a mwy ystyrlon.

Talodd arweinwyr Cynghorau Sir Powys a Cheredigion deyrnged i Aggie Caesar-Homden oedd yn symud o rôl Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol a diolchodd iddi am ei holl waith o ddatblygu'r Bartneriaeth a meithrin cysylltiadau gyda busnesau.

| 5. | **BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU / MID WALES GROWTH DEAL** |
|---|---|

Ceisiwyd cymeradwyaeth y Bwrdd i gyflwyno Achos Busnes Portffolio Strategol f2.1 a Strategaeth Fuddsoddi'r Sector Preifat DRAFFT f2.0 i Lywodraethau'r DU a Chymru i'w hadolygu yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredu Dinasoedd Cymru a’r Fargen Twf ar 29 Mawrth, fel rhan o ystyriaeth o gyflwyno Llythyr Dyfarnu Grant ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru. Nid oedd gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo prosiectau unigol na'r cyllid ar eu cyfer. Cadarnhawyd nad oedd prosiectau a chyllid wedi'u pennu eto a bod hyblygrwydd o ran cyflwyno prosiectau eraill. Yn rhan o'r pecyn roedd y Cynllun Gweithredu, y Cynllun Sicrhau a Chymeradwyo Integredig, y Strategaeth Gyfathrebu a'r Gofrestr Risgiau a Materion.

Cynhaliwyd Adolygiad Sicrwydd Portffolio (PAR) rhwng 14 a 17 Chwefror, a

phennwyd sgôr **AMBR/GWYRDD** i Fargen Twf Canolbarth Cymru, a oedd yn gadarnhaol iawn. Roedd yr adroddiad yn canmol cynnydd y Fargen Twf ac yn darparu 10 argymhelliad i gynorthwyo datblygiad a gweithredu pellach. Roedd pob un o’r rhain yn gyraeddadwy, ac roedd rhai eisoes yn y broses o gael eu cynllunio/gweithredu. Byddai Cynllun Gweithredu'n cael ei ddatblygu er mwyn symud gwneud cynnydd gyda’r rhain. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhan o'r broses sicrwydd gyda'r Llywodraeth ac mae’n cefnogi rhyddhau cyllid y Fargen Twf.

Trafododd y Bwrdd a oedd defnyddio’r 4% a bennwyd yn benodol i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn swm priodol. Dywedodd swyddogion ei fod yn swm priodol i ariannu swyddi sy'n cefnogi'r Fargen Twf. Byddai CJE yn dosbarthu nodyn i'r Bwrdd ar fanylion y ganran benodol hon ac yn nodi'r dull a gymerwyd gan bargeinion twf eraill Cymru. Nodwyd bod swm is yn cael ei bennu yng Ngogledd Cymru ond bod yr awdurdodau lleol yno yn cyfrannu llawer mwy.

Cadarnhawyd bod noddwyr y prosiect yn ymwybodol o'r symiau dangosol ar gyfer eu prosiectau a'u bod wedi cael gwybod y gallai fod yn rhaid iddynt edrych ar ffynonellau arian eraill neu drefnu prosiectau fesul cam os nad oedd y cyllid llawn ar gael.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Bryan Davies a’i eilio gan y Cynghorydd Keith Henson a derbyniwyd hyn yn unfrydol

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cyflwyno Achos Busnes Portffolio Strategol f2.1 a Strategaeth Fuddsoddi Sector Preifat DRAFFT f2.0 i Lywodraethau'r DU a Chymru i'w hadolygu yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredu Dinasoedd Cymru a’r Fargen Twf ar 29 Mawrth, fel rhan o ystyriaeth o gyflwyno Llythyr Dyfarnu Grant ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru.**

## 6. UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS

Dim

## 7. DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF / DATES OF FUTURE MEETINGS

*23 Mehefin 2023 – Rhithwir*
*29 Medi 2023 – Rhithwir*
*15 Rhagfyr 2023 – Rhithwir*

**Y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt**
**Cadeirydd**